



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Tiroedd Comin 2006

**Arweiniad ar Diroedd Comin –
Darpariaethau Caniatâd Arbennig:
Tiroedd Comin yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol**



INVESTOR IN PEOPLE

Ebrill 2012



CYNNWYS

Pennod

Cyflwyniad	1
Sut dylwn i wneud cais o dan adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971?	2
Sut gwn i mai gwneud cais adran 23 yw'r ffordd orau ymlaen?	3

Atodiad A – adrannau 23 a 29 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tiroedd Comin 2006)

Atodiad B - Gwaith ar dir comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y ceisir/na cheisir caniatâd Gweinidogion Cymru amdano

Draft V3

Arweiniad ar diroedd comin – darpariaethau caniatâd arbennig: tiroedd comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Sylwer: Mae a wnelo'r wybodaeth a geir yn y canllawiau hyn â'r gweithdrefnau [yng Nghymru yn unig](#).

Dylid darllen y daflen hon yn ychwanegol at 'Arweiniad ar diroedd comin – Trosolwg Cyffredinol'.

Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond nid oes iddi statws cyfreithiol.

1. Cyflwyniad

Mae'r tiroedd comin biau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ddarostyngedig i gyfraith wahanol i diroedd comin adran 38. Mae tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn destun ei Ddeddfau ei hun. O dan adran 29 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1907, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gadw ei thiroedd comin "heb eu cau a heb adeiladu arnynt er mwyn hamdden a mwynhad y cyhoedd". Amodir y gofyniad hwnnw gan rymoedd a roddir yn adran 29 ei hun, ac mewn darpariaethau diweddarach, gan gynnwys adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971.

Mae'r diffiniad o dir comin ar gyfer adrannau 23 a 29 yr un fath ag ar gyfer adran 38. Mae adran 23 felly mewn grym ar unrhyw dir biau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi ei gofrestru fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Mae hefyd mewn grym ar unrhyw dir o eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd heb ei gofrestru fel tir comin a reoleiddir gan Ddeddf Cadarnhau Gorchymyn Dros Dro o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876 neu Ddeddf Tiroedd Comin 1899. Nid yw adran 23 yn gyffredinol mewn grym ar gyfer meysydd trefi neu bentrefi cofrestredig. Gweler nodyn y 'Arweiniad ar Diroedd Comin – Darpariaethau Caniatâd Arbennig (ar wahân i Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)' am fwy o wybodaeth am feysydd trefi neu bentrefi, ond gall fod ar brydiau os yw maes felly'n destun cynllun neu Ddeddf.

Ceir copi o adrannau 23 a 29 yn **Atodiad A**. Ni ellir cynnal gwaith o dan adran 23 sy'n rhwystro neu'n atal mynediad ond yn unig os ceir caniatâd Gweinidogion Cymru o dan adran 23(2). Mae adran 29 yn caniatáu peth gwaith ar dir yr Ymddiriedolaeth heb yr angen am ganiatâd Gweinidogion Cymru. Mae'r arweiniad yn **Atodiad B** yn rhoi safbwynt yr Ymddiriedolaeth pa fathau o waith sydd ym mha categori.

Rhybudd: Nid yw rhestr Atodiad B yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Ar ben hynny, dylech wirio'n ofalus a yw unrhyw waith rydych yn bwriadu ei wneud yn cael ei awdurdodi'n benodol gan Ddeddfau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

2. Sut dylwn i wneud cais o dan adran 23 Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971?

Mae adran 23(1) yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i wneud gwaith yr ystyria ei fod yn "ddymunol at ddiben cynnig, neu wella, cyfleoedd ar gyfer

mwynhau'r eiddo gan y cyhoedd, ac er budd unigolion sydd am wneud hynny", ond mae angen caniatâd Gweinidogion Cymru yn aml o dan adran 23(2).

Dylid gwneud ceisiadau o dan adran 23(2) naill ai:

(i) gan yr Ymddiriedolaeth, os yw'r Ymddiriedolaeth i wneud y gwaith arfaethedig, neu

(ii) gan drydydd parti, os yw'r trydydd parti i wneud y gwaith arfaethedig o dan hawl benodol neu ddealedig.

Mae'n rhaid i **bob** cais adran 23(2) gael llythyr gydag ef gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth, yn cadarnhau bod yr Ymddiriedolaeth wedi dod i'r casgliad fod y gwaith arfaethedig yn ddymunol yng ngoleuni adran 23(1).

Gellir cysylltu â Chyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth yn swyddfa ganolog yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Heelis, Kemble Drive, Swindon, SN2 2NA.

Penderfynir ar geisiadau o dan adran 23(2) drwy ddefnyddio'r un weithdrefn a meini prawf ag ar gyfer adran 38. Defnyddir yr un ffurflen gais.

3. Sut gwn i mai gwneud cais adran 23 yw'r ffordd orau ymlaen?

Os ydych yn ystyried gwneud gwaith ar dir comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bydd o dan un o dri phrif gategori:

A. Gwaith "Dymunol" (gweler yr adran flaenorol) o dan adran 23 fydd angen caniatâd o dan 23(2) os yw'n rhwystro neu'n atal mynediad (gweler y rhestr yn **Atodiad B, Colofn A**). Gall gwaith o'r fath gynnwys yn neilltuol:

(a) cynnig neu drefnu i gynnig cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer mwynhad neu hwylustod y cyhoedd, gan gynnwys pryddau bwyd a lluniaeth, manau parcio i gerbyddau, llochesau a thai bach;

(b) codi adeiladau a chynnal gwaith.

B. Gwaith sydd naill ai (i) wedi ei awdurdodi'n benodol gan adran 29, neu (ii) wedi ei ganiatáu o dan adran 23(1) ac nad yw'n rhwystro neu'n atal mynediad (gweler y rhestr yn **Atodiad B, Colofn B**).

C. Gall hefyd fod yn agored i'r Ymddiriedolaeth o dan ddarpariaethau datgofrestru a chyfnewid adran 16 (gweler y canllawiau ar wahân), lle cynigir gwaith ar dir comin, neu feysydd trefi neu bentrefi, cofrestredig nad ydynt o dan y categori o waith a ganiateir gan adran 29 neu adran 23(1) neu lle mae caniatâd yn annhebygol o gael ei roi o dan adran 23(2).

Byddwch cystal â chyfeirio at y nodyn 'Arweiniad ar Diroedd Comin – Trosolwg Cyffredinol' ar gyfer canllawiau i ateb y cwestiynau canlynol:

**Pa gamau ddylwn i eu cymryd cyn gwneud cais?
A yw fy nghais yn debygol o lwyddo?
Sut dylwn i wneud cais, a beth fydd yn digwydd iddo?
Faint o amser a gymer fy nghais?
Beth fydd yn digwydd os gwnaf gamgymeriad gyda'm cais?
Beth ddylwn i wneud i gynnal gwaith argyfwng ar dir comin?**

Draft V3

Deddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1907 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tiroedd Comin 2006)

Adran 23 - Grymoedd pellach dros dir comin neu diroedd cominadwy penodol

(1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, yn ychwanegol at y grymoedd a roddir i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan adran 29 (grymoedd y gellir eu hymarfer dros ddarnau penodol o eiddo'r Ymddiriedolaeth) Deddf 1907, bydd gan yr Ymddiriedolaeth rym parthed unrhyw eiddo sydd gan yr Ymddiriedolaeth y mae a wnelo'r adran honno ag ef i wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ddymunol at ddiben cynnig, neu wella, cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau'r eiddo, ac er buddiannau unigolion sydd am wneud hynny, ac yn neilltuol —

(a) i ddarparu neu drefnu ar gyfer cynnig cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer mwynhad neu hwylustod y cyhoedd, gan gynnwys prydu bwyd a lluniaeth, manau parcio i gerbydau, llochesau a thai bach;

b) i godi adeiladau a chynnal gwaith.

(2) Ni fydd codi unrhyw adeilad (ar wahân i sied i offer a deunyddiau), neu adeiladu unrhyw waith arall, lle rhwystrir neu atelir mynediad gan y cyhoedd i unrhyw ddarn o eiddo'r Ymddiriedolaeth mae a wnelo'r adran 29 ddywededig ag ef, yn gyfreithlon oni bai y ceir caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol [yn Lloegr].

2A Mae adrannau 39 a 40 Deddf Tiroedd Comin 2006 mewn grym mewn perthynas â chais am ganiatâd o dan isadran (2) yr adran hon fel maent mewn grym mewn perthynas â chais am ganiatâd o dan adran 38(1) y Ddeddf honno.

2B Mae adran 41 y Ddeddf honno mewn grym mewn perthynas â chynnal gwaith yn groes i isadran (20 yr adran hon fel mae mewn grym gyda gwaith a gynhelir yn groes i adran 38(1) y Ddeddf honno (ac fel petai cyfeiriadau at ganiatâd o dan y ddarpariaeth honno at ganiatâd o dan isadran (2) yr adran hon).

2C Nid oes dim yn adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006 mewn grym mewn perthynas â thir y mae adran 29 Deddf 1907 mewn grym drosto.

(3) Er gwaethaf unrhyw beth yn isadran (2) adran 30 (y grym i godi tâl am fynediad i eiddo'r Ymddiriedolaeth) Deddf 1907 gall yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol godi tâl rhesymol y gall benderfynu arno o bryd i'w gilydd ar gyfer defnydd gan y cyhoedd o unrhyw gyfleusterau, gwasanaethau, manau parcio neu lety arall a ddarperir o dan yr adran hon.

Adran 29 - Grymoedd y gellir eu harfer dros rai darnau o eiddo'r Ymddiriedolaeth

(1) Yn rhinwedd y Ddeddf hon gosodir ar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol parthed unrhyw ran o eiddo'r Ymddiriedolaeth sy'n dir ac mae'r adran hon

mewn grym ar ei gyfer y dyletswyddau canlynol a bydd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf hon) mewn perthynas â'r cyfryw eiddo y grymoedd canlynol (sef): —

(A) Ar wahân i le mae'r Ddeddf hon yn darparu fel arall byddant ar bob adeg yn cadw'r cyfryw eiddo heb ei amgáu a heb gael adeiladu arno fel mannau agored ar gyfer hamdden a mwynhad y cyhoedd:

(B) Gallant blannu lefel draenio a gwella fel arall a newid unrhyw ran neu rannau o'r eiddo hyd y barnant yn angenrheidiol neu'n ddymunol a gallant gau i mewn dros dro i ddibenion yr isadran hon ac i ddiben gwarchod neu adnewyddu tyfiant a gwarchod coed a phlanhigfeydd:

(C) Gallant lunio a chynnal a chadw ffyrdd, llwybrau troed a ffyrdd dros y cyfryw eiddo a gwneud a chynnal a chadw pyllau a dyfroedd addurnol ar y cyfryw eiddo:

(D) Gallant ar y cyfryw eiddo godi siediau i offer a deunyddiau a gallant gynnal a chadw a thrwsio siediau o'r fath:

(E) Byddant drwy bob dull cyfreithlon yn rhwystro, yn gwrthod ac yn lleihau pob ymgais i amgáu a llechfeddiannu'r cyfryw eiddo neu unrhyw ran ohono neu ei addasu neu ei ddefnyddio ef, neu ei bridd, ei goed neu unrhyw ran ohono at unrhyw ddiben sy'n anghyson â'r Ddeddf hon:

(F) Gallant neilltuo o bryd i'w gilydd rannau o'r cyfryw eiddo y gall unigolion gynnal chwaraeon neu gyfarfodydd arnynt neu ymgasglu arnynt ar gyfer chwaraeon athletaidd.

(2) Mae a wnelo'r adran hon—

(a) ag unrhyw dir wedi ei gofrestru fel tir comin;

(b) â thir heb ei gofrestru felly sydd—

(i) yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf a wnaed o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876 yn cadarnhau gorchymyn darpariaeth dros dro y Comisiynwyr Cau Tiroedd; neu

(ii) sy'n destun cynllun o dan Ddeddf Tiroedd Comin Metropolitan 1866 neu Ddeddf Tiroedd Comin 1899; a

(c) thir heb fod o dan baragraff (a) na (b) sydd yn y New Forest ac sy'n destun hawliau tir comin.

Gwaith ar dir comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y ceisir/na cheisir caniatâd Gweinidogion Cymru amdano

<p>A – Gwaith lle bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio caniatâd</p>	<p>B - Gwaith lle na fydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio caniatâd</p>
<p>1. Ffensiau neu rwystrau parhaol o unrhyw fath, gan gynnwys rhwystrau diogelwch a rhwystrau* i gadw cerbydau oddi ar dir comin</p> <p>2. Ffensiau, parhaol neu fel arall, a gysylltir â phori anifeiliaid oni bai eu bod wedi'u cysylltu'n glir â gwaith a geir yn B19</p> <p>3. Unrhyw ffensiau dros dro eraill heb eu cysylltu â B19</p> <p>4. Adeiladu gridiau gwartheg</p> <p>5. Adeiladu adeiladau gyda'r bwriad o helpu'r cyhoedd i fwynhau'r eiddo (e.e. llochesau a chyfleusterau lluniaeth a thai bach) ond heb gynnwys siediau ar gyfer cadw offer a deunyddiau</p> <p>6. Creu manau parcio parhaol newydd ac estyniadau i fannau parcio parhaol sy'n bod</p> <p>7. Unrhyw adeiladau neu waith sy'n rhwystro neu sy'n atal mynediad i dir comin na chrybwyllir mohonynt uchod nac yng ngholofn B y tabl hwn</p> <p>* Cyfeiria hyn yn unig at rwystrau a osodir ar y tir comin ei hun ac mae'n cynnwys argloddiau a ffosydd, dannedd draig a gosod cerrig mawr</p>	<p>1. Codi siediau ar gyfer storio offer a deunyddiau*</p> <p>2. Plannu coed</p> <p>3. Gwaith draenio</p> <p>4. Gwaith lefelu</p> <p>5. Gwaith cynnal a chadw a thrwsio</p> <p>6. Gwaith ailwynebu drwy ddefnyddio'r un deunyddiau ag o'r blaen</p> <p>7. Adeiladu clwydi a chamfeydd i derfynau sydd eisoes syn bod</p> <p>8. Creu pyllau neu gyrff dŵr eraill</p> <p>9. Carthu a chlrrio pyllau a chyrff dŵr eraill</p> <p>10. Codi arwyddion a byrddau hysbysiadau</p> <p>11. Rheoli llystyfiant drwy ddulliau mecanyddol</p> <p>12. Gwelliannau (heb gynnwys estyniad i'r fan) ar fannau parcio parhaol sy'n bod</p> <p>13. Ailwynebu (gyda'r un deunydd) llwybrau a thraciau</p> <p>14. Ailwynebu (gyda'r un deunydd neu roi deunydd sy'n fwy cydnaws â chymeriad y tir comin) manau parcio sy'n bod</p> <p>15. Symud pridd ar y tir comin</p> <p>16. Lledu llwybrau a thraciau</p> <p>17. Creu llwybrau, traciau a ffyrdd mynediad newydd</p> <p>18. Gosod manau ar gyfer chwaraeon a gemau</p> <p>19. Ffensiau neu rwystrau dros dro yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • phlannu, draenio neu lefelu • newidiadau neu welliannau, • gwarchod neu adnewyddu tyfiant • gwarchod coed a phlanhigfeydd <p>* Nid yw hyn yn ymestyn i weithdai na swyddfeydd na storio cerbydau mecanyddol</p>

Draft V3